

Gweithiau Ehangach Strategol (GES)

Ofgem yn pennu systemau rheoli prisiau ar gyfer y cwmnïau sy'n gweithredu rhwydweithiau nwy a thrydan Prydain. Mae'r rhain yn cyfyngu ar faint o arian y gall cwmnïau rhwydwaith ei adfer o'u taliadau i gyflenwyr, sy'n trosglwyddo'r costau hynny i gwsmeriaid ar ffurf biliau ynni. Mae angen rheoli prisiau gan fod y cwmnïau rhwydwaith hyn yn ddarparwyr gwasanaethau rhwydwaith unigol.

Pam bod gennym raglen Gweithiau Ehangach Strategol (GES)?

RIIO (Refeniw=Cymhellion + Arloesedd + Allbynau) yw fframwaith newydd Ofgem ar gyfer pennu systemau rheoli prisiau. Bydd yn helpu i sicrhau bod rhwydwaith dibynadwy a diogel yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr am bris teg.

Yn 2012 gwnaethom gyhoeddi ein Cynigion Terfynol RIIO-T1 i'r tri pherchennog cwmni trawsyrru trydan sy'n gweithredu ym Mhrydain Fawr - Scottish Power Transmission Limited (SPTL), Scottish Hydro Electric Transmission Plc (SHE Transmission) a National Grid Electricity Transmission Plc (NGET). Mae'r rhain yn gosod y tair elfen o'r pecyn rheoli prisiau am gyfnod o wyth mlynedd, o 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2021. Fel rhan o waith rheoli prisiau RIIO-T1, gwnaethom weithredu trefniadau ar gyfer Gweithiau Ehangach Strategol er mwyn galluogi perchnogion cwmnïau trawsyrru i gyflawni buddsoddiadau rhwydwaith mawr ychwanegol.

Beth yw Gweithiau Ehangach Strategol?

Mae angen nifer o brosiectau trawsyrru mawr dros y cyfnod rheoli prisiau sydd i ddod. Mae hyn oherwydd bod disgwyl adeiladu llawer o ddulliau cynhyrchu newydd i ddisodli'r hen orsafoedd pŵer, ac mae angen i ni gynyddu faint o drydan a gaiff ei gynhyrchu drwy ddulliau cynhyrchu isel mewn carbon. Bydd yn rhaid ehangu a chryfhau'r system drawsyrru er

mwyn cludo trydan o ble y caiff dulliau cynhyrchu newydd eu hadeiladu i'r manau lle bydd galw amdano.

Ni chytunwyd ar nifer o'r datblygiadau hyn fel rhan o broses rheoli prisiau RIIO-T1 gan fod amseru a chostau prosiectau penodol yn ansicr ar adeg y setliad. Er mwyn helpu rheoli'r ansicrwydd hwn, gwnaethom gyflwyno trefniadau GES.

Mae trefniadau GES yn rhoi hyblygrwydd gan ganiatáu i berchnogion cwmnïau trawsyrru gyflwyno prosiectau pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael (yn hytrach na chaniatáu i berchnogion cwmnïau trawsyrru ddatblygu prosiectau y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r broses rheoli prisiau). Mae hyn yn helpu i reoli ansicrwydd a sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr drwy sicrhau y caiff prosiectau seilwaith rhwydwaith eu datblygu ar yr amser mwyaf priodol.

Mae gan y perchnogion cwmnïau trawsyrru ddyletswydd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith trawsyrru darbodus, cydgysylltiedig ac effeithlon. Y perchnogion cwmnïau trawsyrru sydd felly yn penderfynu ar yr amser gorau i ddechrau prosiect newydd. Mae'n rhaid i berchnogion cwmnïau trawsyrru wneud penderfyniadau ar y lefel briodol o fuddsoddiad o ystyried yr amseroedd cwblhau hir o ran darparu cyfarpar newydd ac ansicrwydd ynglŷn â faint o ynni newydd a gaiff ei gynhyrchu. Fel y rheoleiddiwr, ein rôl yw craffu ar y prosiectau hyn pan gânt eu cyflwyno i ni ac ystyried a oes angen atgyfnerthu ac a fydd cynlluniau perchnogion cwmnïau trawsyrru yn debygol o roi gwerth am arian yn y tymor hir i ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr yn y dyfodol.

Beth yw proses GES?

Pan fydd perchennog cwmni trawsyrru eisiau cyflwyno prosiect i'w ystyried dan drefniadau GES, rhaid iddo ein hysbysu ei fod yn cynnig datblygiad rhwydwaith newydd er mwyn iddo gael ei gymeradwyo'n rheoliadol. Bydd yn rhaid iddo hefyd ddarparu gwybodaeth i gefnogi a chyfiawnhau'r gwaith atgyfnerthu rhwydwaith a dangos bod costau cyflwyno'r prosiect arfaethedig yn gwerth am arian.


Fel rhan o'n hasesiad cymhwysedd, byddwn yn asesu a yw'r gwaith datblygu rhwydwaith arfaethedig yn bodloni meini prawf i gael eu hystyried dan drefniadau GES:

- bod y prosiect yn cyflwyno cynnydd yng nghapasiti rhwydwaith

- nad yw'r prosiect yn cael ei ariannu rywle o fewn rheoli pris
- bod gwerth y prosiect yn bodloni isafswm trothwy ariannol.

Byddwn yn asesu a ellir ei gyfiawnhau yn deg ac a fyddai er budd defnyddwyr presennol a rhai'r dyfodol i barhau (y cam hwn yw'r asesiad Achos Angen). Byddwn wedyn yn asesu a yw'r dyluniad technegol, y costau a'r cynllun cyflwyno yn effeithlon (Asesiad y Prosiect).

Caiff y broses hon, ac amcangyfrif o amser cyflawni ar gyfer pob cam, ei dangos yn y diagram isod.



Mae'n rhaid i berchnogion cwmnïau trawsyrru sicrhau bod ceisiadau GES yn gyflawn (hy eu bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol er mwyn i ni allu asesu'r achos). Os na fydd y cyflwyniadau'n cyrraedd y gofynion a bennir yn ein Canllawiau GES yna mae'n bosibl y byddwn yn dychwelyd y cais. Byddem yn disgwyl i hynny fod yn eithriad, nid yn rheol. Gall ffactorau eraill, megis newid sylweddol mewn polisi neu newidiadau mawr i gwmpas technegol neu gostau unrhyw gynrig, achosi i ni ohirio'r broses dros dro. Byddai hyn yn gwneud y broses asesu yn hirach.

Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar ein Hachos Angen ac asesiadau Prosiect er mwyn llywio ein penderfyniadau o ran p'un ai i gymeradwyo'r cynnig a'i peidio.

Os byddwn yn dod i gasgliad cadarnhaol ar bob agwedd ar ein hasesiadau, byddwn yn ymgynghori ar yr addasiadau arfaethedig i drwydded trawsyrru trydan y perchennog hefyd. Byddai'r addasiadau hyn yn nodi allbwn GES newydd ar gyfer gwaith datblygu'r rhwydwaith, a'r gwariant ychwanegol a ganiateir y gall perchnogion cwmnïau trawsyrru ei adfer gan ddefnyddwyr drwy daliadau rhwydwaith er mwyn atgyfnerthu'r rhwydwaith.

Os byddwn yn penderfynu gwneud yr addasiadau arfaethedig yn dilyn ein hymgyngoriad, yna caiff trwydded perchennog y cwmni trawsyrru ei addasu.

Faint o amser bydd y broses GES yn ei gymryd?

Yn gyffredinol, mae cynigion ar gyfer gwaith datblygu rhwydwaith newydd a gaiff eu hasesu o dan fframwaith GES, yn fawr ac yn gymhleth. I gyd-fynd â'n hegwyddor RIIO am gymesuredd, byddwn yn craffu'n fanylach ar brosiectau sy'n fwy o faint a/neu brosiectau sy'n fwy technolegol gymhleth nag i brosiectau sy'n llai o faint a/neu sy'n symlach.

Bydd ein hasesiadau a'n hymgyngoriadau â rhanddeiliaid ar gynigion yn cymryd amser. Rydym yn disgwyl i berchnogion cwmnïau trawsyrru ystyried y materion hyn wrth benderfynu ar yr amser gorau i gyflwyno cais. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i gynrig gyda thystiolaeth gref gymryd rhwng 12 a 15 mis o ddechrau'r broses asesu nes gwneud penderfyniad o ran cyllid. Gall prosiectau'n sy'n arbennig o gymhleth neu'n sensitif gymryd mwy o amser.

Os bydd ein proses asesu ar gyfer prosiect penodol yn wahanol iawn i'n proses arferol, byddwn yn ceisio hysbysu'r rhanddeiliaid perthnasol yn gynnar, ac yn esbonio ein rhesymau dros fabwysiadu proses wahanol. Rydym hefyd yn disgwyl i berchnogion cwmnïau trawsyrru ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid a'u hysbysu am linellau amser prosiectau GES.

Pa brosiectau y gellid eu hasesu dan drefniadau GES?

Mae ein Cynigion Terfynol RIIO-T1 yn gosod rhestr nad yw'n gynhwysfawr a ellid ei chyflwyno gan berchnogion cwmnïau trawsyrru er mwyn bodloni gofynion ein cwsmeriaid yn y dyfodol. Caiff y rhain eu cynnwys yn Nhabl 1 isod, ac mae ambell un wedi ei gyflwyno i ni i'w asesu eisoes. Gellir cyflwyno'r prosiectau sy'n weddill, a phob prosiect newydd nad yw'n cael ei nodi yng Nghynigion Terfynol RIIO-T1, i'w hasesu yn y dyfodol.

Tabl 1: Allbynuau posibl i Weithiau Ehangach Strategol

Perchennog Cwmni Trawsyrru	Prosiect Arfaethedig	Ysgogwr allweddol ar gyfer buddsoddiad
NGET	Hinkley-Seabank	Adnoddau cynhyrchu ynni niwclear arfaethedig yn Hinkley-Point
NGET; SHE Transmission; SPTL (prosiect ar y cyd)	Cysylltiad HVDC o dan y môr i'r dwyrain	Cynnydd yng nghapasiti cludo rhwng y gogledd a'r de; adnoddau cynhyrchu ynni newydd ar y môr yn Frith of Forth
SHE Transmission	Caithness-Moray	Adnoddau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr
SHE Transmission	400kV Arfordir y Dwyrain	Gwella'r gallu i allforio ynni adnewyddadwy i ganol yr Alban a gogledd Lloegr
SHE Transmission	Kintyre-Hunterston	Adnoddau cynhyrchu ynni adnewyddadwy o gwmpas ardal Kintyre, Argyll a Bute
SHE Transmission	Cysylltiad Ynysoedd Gorllewin yr Alban a gweithiau ar y tir	Adnoddau cynhyrchu newydd ar Ynys Lewis
SHE Transmission	Cysylltiad HVDC Ynys Shetland	Adnoddau cynhyrchu o gwmpas Ynys Shetland
SHE Transmission	Cysylltiad Ynysoedd Orkney	Adnoddau cynhyrchu ynni adnewyddadwy o gwmpas Ynysoedd Orkney a Pentland Firth
SHE Transmission	Llinell uwchben Beaulieu-Mossford	Prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ardaloedd Strathconon a Mossford
SHE Transmission	Ail gysylltiad HVDC o dan y môr ar Arfordir y Dwyrain	Adnoddau cynhyrchu ynni gwynt gan gynnwys Moray Firth ac adnoddau cynhyrchu ynni morol o Pentland Firth a Dyfroedd Orkey
SPTL	Dumfries and Galloway	Er mwyn hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ne orllewin yr Alban a darparu cysylltiad diogel i ryng-gysylltydd Moyle
SPTL	Arfordir y Dwyrain (Kincardine - Harburn) 400 kV	Caniatáu i lefelau uwch o ynni adnewyddadwy gael eu trosglwyddo o ardaloedd rhwydwaith SHET i SPTL.

Sut i gael rhagor o wybodaeth

Ceir yr holl ddiweddariadau a'r ymgynghoriadau ar adran GES ein gwefan:

<https://www.ofgem.gov.uk/electricity/transmission-networks/critical-investments/strategic-wider-works>.

Cysylltwch â'r tîm ar SWW@ofgem.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd, cysylltwch â:

Tim Materion Defnyddwyr

020 7901 7295

e-bost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

Lisa O'Brien, Uwch Reolwr Cyfathrebu

020 7901 7426

e-bost: lisa.obrien@ofgem.gov.uk